## Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD STD 03-01 (COFNODION)

---

Dyddiad: 28 Mehefin 2001, am 14.00

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

*Aelodau*

David Melding, Canol De Cymru (Cadeirydd)
Cynog Dafis, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Janice Gregory, Ogwr
Brian Hancock, Islwyn
Gareth Jones, Conwy
Gwenda Thomas, Castell-nedd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Karen Sinclair, De Clwyd

*Swyddogion*

Andrew George, Clerc y Pwyllgor
Jill Thomas, Dirprwy Glerc
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd

*Arall*

Richard Penn, Ymgynghorydd Annibynnol y Cynulliad ar Safonau

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Gwyther, a Janice Gregory ar gyfer rhan gyntaf y cyfarfod. Hefyd, diolchodd Jill Thomas am ei chymorth i'r Pwyllgor, gan ei bod yn gadael ei swydd fel Dirprwy Glerc.

2. Cadarnhaodd y Pwyllgor bod cofnodion y cyfarfod diwethaf (STD 02-01 min) yn gofnod cywir.

**Eitem 2: Newyddion y tri mis diwethaf ac arolwg o'r camau a gododd o STD-02-01**

Papur STD-03-01 (1)

3. Nododd y Pwyllgor bapur yr Ysgrifenyddiaeth.

4. Rhoddodd y Dirprwy Glerc adroddiad ar y cyfarfod gydag Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty ynglyn â sefydlu cysylltiadau agosach rhwng y pwyllgorau ac yn benodol, ailedrych ar yr arweiniad ar y defnydd a wneir o Adnoddau’r Cynulliad. Cytunodd Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty y byddai gwella cyfathrebu yn fanteisiol i’r ddau bwyllgor, ac y dylid ystyried ailedrych ar yr arweiniad ar y defnydd a wneir o adnoddau er mwyn rhoi ystyriaeth i sylwadau’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

**Eitem 3: Y newyddion diweddaraf am y Gofrestr o Fuddiannau Aelodau**

Eitem lafar

5. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y Gofrestr o Fuddiannau’r Aelodau ar lafar gan Glerc y Pwyllgor. Cyhoeddwyd y pumed adroddiad chwarterol ym mis Ebrill, a bydd yr ail adroddiad blynyddol gan y Llywydd yn cael ei baratoi diwedd mis Gorffennaf.

**Eitem 4: Buddiannau Anuniongyrchol**

Papurau STD-03-01(2,3,&4)

6. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon drwy atgoffa’r Aelodau o’r penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 4 Ebrill. Yr oedd y diffiniadau o "bartner" a "phlentyn dibynnol" wedi’u haddasu ymhellach yng ngoleuni sylwadau’r Pwyllgor ar 4 Ebrill. Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon â’r diffiniadau diwygiedig, yn amodol ar fân gywiriad i’r diffiniad o "bartner". Cytunwyd hefyd, unwaith y byddai’r gofynion newydd wedi’u sefydlu, y gallai’r Pwyllgor ystyried adolygu cofrestru buddiannau gan aelodau eraill o’r teulu. Hefyd, cymeradwyodd y Pwyllgor bapur drafft ar gyfer y Pwyllgor Busnes, STD 03-01(04), yn crynhoi casgliadau ac argymhellion yr adolygiad.

Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio’r diffiniad o "bartner" a threfnu i’r casgliadau a’r argymhellion ddod gerbron y Pwyllgor Busnes, ac yna gerbron y Cynulliad.

**Eitem 5: Y newyddion diweddaraf ar y Protocol gyda'r Heddlu**

Eitem lafar gan David Lambert

7. Yr oedd yr Ysgrifenyddiaeth a David Lambert wedi cynnal cyfarfod â Heddlu De Cymru i drafod y trefniadau ar gyfer ehangu’r protocol cyfredol i heddluoedd eraill yng Nghymru. Cadarnhawyd y gellid gwneud hyn, yn amodol ar rai mân newidiadau i ddiweddaru’r protocol, drwy ddefnyddio’r trefniadau presennol a’r cyfarfodydd cysylltu rheolaidd rhwng yr heddluoedd.

*Gweithredu* :- Yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi protocol diwygiedig a threfnu i’r naill ochr a’r llall ei lofnodi.

Ymunodd Janice Gregory â’r cyfarfod am 14.50

**Eitem 6: Adolygiad o’r Gweithdrefnau ar gyfer Safonau**

Papur STD 03-01(5)

8. Ystyriodd y Pwyllgor y dewisiadau ar gyfer bwrw ymlaen â thri mater cysylltiedig yn y flaenraglen waith sy’n ymwneud â gweithdrefnau’r Cynulliad ar gyfer ystyried Safonau Ymddygiad Aelodau’r Cynulliad, sef:-

- Awdurdod y Pwyllgor
- y broses gwyno, a’r
- Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad

9. Ym marn y Pwyllgor, byddai’n addas cynnal adolygiad cynhwysfawr o’r gweithdrefnau hyn, ac er mwyn sicrhau y byddai’r Cynulliad yn ddiduedd yn y mater hwn, y dylai person neu gorff y tu allan i drefniadau presennol y Cynulliad gynnal yr adolygiad. Yn y lle cyntaf, yr oedd y Pwyllgor yn ffafrio penodi Ymgynghorydd Arbenigol i’r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 8.17, fel a nodwyd yn Opsiwn tri o’r atodiad i STD 03-01 (5).

**Eitem 7: Unrhyw Fusnes arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

*Dyddiad y cyfarfod nesaf*

10. Nododd y Pwyllgor y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mercher 17 Hydref.

Gadawodd Cynog Dafis a Gareth Jones y cyfarfod am 15.30.

**Eitem 8: C014-00**

11. Sesiwn caeëdig. Bydd crynodeb o’r safbwyntiau a’r casgliadau yn cael ei gyflwyno i’r Cynulliad maes o law.

***Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad***